14.07.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Pethau'n mynd o ddrwg i waeth i Dylan

Mae sawl wyneb cyfarwydd wedi dychwelyd i'r opera sebon poblogaidd **Pobol y Cwm** ar S4C dros yr wythnosau diwethaf - a bydd pob un ohonynt, heb os, yn corddi'r dyfroedd.

Dylan Elis - y seicopath golygus a swynol; Cai Rossiter - Casanova'r Cwm sydd wedi torri sawl calon yng Nghwmderi a thu hwnt a Gwyneth Jones - menyw i beidio â'i chroesi!

Gyda'r cymeriadau yma yn dychwelyd â sawl stori ysgytwol – mae am fod yn haf cyffrous iawn yng Nghwmderi.

Mae Gareth Jewell sy'n chwarae rhan Dylan Elis wrth ei fodd i fod yn ôl yng Nghwmderi wedi i'w gymeriad Dylan dreulio cyfnod yn y carchar am saethu ei chwaer Jaclyn Parry (Mali Haries).

Ond nawr mae Jaclyn wedi gollwng y cyhuddiadau yn erbyn Dylan - a dyma fe nôl yng Nghwmderi.

"Mae'n grêt i fod nôl yn y Cwm - dwi wrth fy modd yn chwarae rhan Dylan. Mae'r cymeriad yn un hynod o gymhleth ac felly'n neis iawn i chwarae," meddai Gareth.

"Y tro cyntaf i ni weld Dylan, roedd e'n ddieithryn ond wnaeth e achub Kelly rhag cael ei lladd gan Ed - cafodd ei seto lan fel rhyw fath o arwr - ac rydym ni wedi gwylio ei gwymp o'r statws yma."

Mae Gareth, sy'n wreiddiol o Rydaman ond nawr yn byw gyda'i deulu ar Ynys Môn, yn disgrifio Dylan fel cameleon - yn newid ac addasu i bob sefyllfa er mwyn goroesi.

"Mae Dylan yn amlwg yn rhedeg i ffwrdd o rywbeth," meddai Gareth. "Yr unig berson sydd ganddo yn gyson yn ei fywyd yw ei chwaer Jaclyn. Mae rhywbeth sydd wedi digwydd yn eu gorffennol wedi golygu bod Jaclyn wedi bod mwy fel mam i Dylan 'na chwaer."

Byddai Dylan ar goll heb Jaclyn - felly mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth dros yr wythnosau nesaf wrth i drasiedi enfawr fwrw'r Cwm.

Yn ogystal â Jaclyn y person arall sy'n denu Dylan i Gwmderi yw Dani (Elin Harries) - mam ei fab Gabriel. A fydd Dylan yn darganfod hapusrwydd gyda Dani tybed?

"Fel lot o bobl ddrwg, gwraidd problem Dylan yw ei fod e angen rhywun i garu fe ond mae Dani gyda thri o blant i'w gwarchod - ac mae Dylan fel plentyn arall. Mae e'n stranco os nad yw e'n cael sylw ac yn mynnu bod neb yn ei ddeall ac nid fe yw'r broblem!"

Ond er bod cymeriad Dylan yn heriol a chymhleth, mae Gareth yn mwynhau chwarae'r rhan yn fawr iawn.

"Mae lot o ryddid 'da fi ar set Pobol y Cwm i wneud dewisiadau diddorol ynglŷn â chymeriad Dylan. Ma' Dylan yn gallu bod yn lot o hwyl - mae'n gallu bod yn ddoniol iawn. Ond mae e hefyd y dyn danjerys 'na yng nghornel y tafarn lle ti ddim eisiau dal ei lygad oherwydd dwyt ti ddim yn gwybod sut mae e'n mynd i ymateb."

I ddilyn stori Dylan, peidiwch â cholli Pobol y Cwm dros yr haf ar S4C, S4C Clic a BBC iPlayer.

**Pobol y Cwm**
**Mawrth, Mercher & Iau; 8.00; S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Omnibws bob dydd Sul gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrin**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad BBC Cymru ar gyfer S4C**

14.07.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Things go from bad to worse for Dylan

Several familiar faces have returned to the popular soap opera **Pobol y Cwm** over the last few weeks – and each one of them will, without a doubt, cause quite a stir.

Dylan Elis – the handsome and charming psychopath; Cai Rossiter – the Cwmderi Casanova who leaves a trail of broken hearts behind him and Gwyneth Jones - not a woman to be crossed!

With these characters returning and some shocking storylines – it is going to be a very exciting summer in Cwmderi.

Actor Gareth Jewell who plays the part of Dylan Elis is delighted to be back in Cwmderi after his character Dylan has spent some time in jail for shooting his sister Jaclyn (Mali Harries).

But now Jaclyn has dropped the charges against Dylan – and here he is – back in Cwmderi.

"It's great to be back in the Cwm – I love playing the part of Dylan. He's a tremendously complex character and therefore great to play," said Gareth.

"The first time we saw Dylan, he was a stranger but he came in and saved Kelly from being killed by Ed. He was set up as some sort of hero – and we witness his demise from this status."

Gareth, who is originally from Ammanford but now lives with his family on Anglesey, describes Dylan as a chameleon – he changes and adapts to each situation he finds himself in, in order to survive.

"Dylan is obviously running away from something," said Gareth. "The only person who offers him any stability in his life is his sister Jaclyn. Something has happened in their past which has meant that Jaclyn is more like a mother to Dylan than a sister."

Dylan would be lost without Jaclyn – and things will go from bad to worse for Dylan as a huge tragedy hits the Cwm.

As well as Jaclyn, the other person that brings Dylan back to Cwmderi is Dani (Elin Harries) – the mother of his son Gabriel. Will Dylan finally find happiness with Dani?

"Like a lot of bad people, at the heart of Dylan's problem is that he needs someone to love him but Dani has three children to look after – and Dylan is like another child," Gareth explained. "He has a tantrum if he doesn't get attention, he insists that nobody understands him and that he isn't the problem."

But although Dylan’s character is challenging and complicated, Gareth enjoys playing the part very much.

“I have a lot of freedom on the set of Pobol y Cwm to make interesting decisions in terms of Dylan’s character. Dylan can be a lot of fun – he can be very funny. But he is also that dangerous man in the corner of the pub – you don’t want to catch his eye because you don’t know how he will react.”

To follow Dylan’s story, don’t miss **Pobol y Cwm** over the summer on S4C, S4C Clic and BBC iPlayer.

**Pobol y Cwm**
**Tuesday, Wednesday & Thursday; 8.00; S4C**
**English and Welsh subtitles**
**Omnibus on Sunday with on-screen English subtitles**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**A BBC Wales production for S4C**